

Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Tachwedd 2021):

Mae gen i hawl

Nod y wers:

- Cyflwyno Comisiynydd y Gymraeg a'i waith;
- Trafod yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Rhagfyr 7fed ydy diwrnod "Mae gen i hawl". Ar y dyddiad hwn bob blwyddyn, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg, wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg ydy sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd yng Nghymru. I ddatlu diwrnod "Mae gen i hawl", mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi gyflwyno Comisiynydd y Gymraeg a'i waith i'r dysgwyr, ac i drafod yr hawliau sydd gennym ni i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ar noson Rhagfyr 7fed, mae cyfarfod arbennig wedi'i drefnu ar Zoom i ble bydd cyfle i ddysgwyr holi Comisiynydd y Gymraeg. Mae manylion y cyfarfod a sut i gofrestru ar ddiwedd yr uned. Anogwch y dysgwyr i gofrestru ar gyfer y digwyddiad, ac i gyflwyno cwestiynau ymlaen llaw i Helen Prosser (helen.prosser@dysgucymraeg.cymru) os oes modd.

Cwis

1. Ar ôl mynd dros y cyflwyniad, ewch ymlaen i gael popeth yn barod ar gyfer y cwis. Mae'r cwis wedi'i osod ar Kahoot gallwch fynd ato trwy'r ddolen yma:

<https://create.kahoot.it/share/cwis-comisiynydd-y-gymraeg/a2030fbe-4870-4095-aca0-cfe239f3ee72>.

Os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, bydd angen i chi greu cyfrif gyda Kahoot – mae cyfrif am ddim ar gael ac mae modd chwarae'r cwis gyda hyd at 10 o gystadleuwyr ar gyfrif o'r fath. Bydd angen i bob dysgwr fod â dyfais electronig wedi'i gysylltu â'r we er mwyn cymryd rhan. Os ydych yn dysgu o bell, byddai'n ddelfrydol petai ganddynt ffôn clyfar neu ddyfais llechen yn ychwanegol at y ddyfais y maent yn ei defnyddio i ymuno â'r dosbarth, ond mae modd iddynt ddefnyddio'r un ddyfais, gyda ffenestr arall ar agor os nad ydy hynny'n bosib..

Pan fyddwch chi'n barod i gyflwyno'r cwis, dewiswch 'Play' (a 'Continue' wedyn os ydych ar gyfrif di-dâl).

Dewiswch 'Teach' o'r sgrin nesaf ac wedyn, os ydych chi'n dysgu o bell, mae'n werth dewis yr opsiwn 'Show questions and answers on players' devices' cyn clicio ar 'Classic'.

Bydd rhif PIN yn cael ei ddangos ar y sgrin ar gyfer y gêm. Bydd angen i bob dysgwr fynd i kahoot.it ar borwr gwe eu dyfais a rhoi'r rhif PIN hwn i mewn. Byddwch yn gweld pan fydd pawb wedi gwneud hynny a gallwch symud ymlaen i fynd trwy gwestiynau'r cwis.

Bydd pob dysgwr yn gweld a yw wedi rhoi'r atebion cywir fesul cwestiwn ac ar ddiwedd y cwis, bydd 'seremoni wobrwyo' i'r tri gafodd y marciau uchaf (rhoddir marciau am atebion cywir a chyflymder).

Mae'n syniad da i chi roi cynnig ar wneud y cwis eich hun cyn y dosbarth (gyda chyfrifiadur a ffôn clyfar/dyfais llechen) er mwyn ymglyfarwyddo â'r drefn.

Fideos – Mae gen i hawl

Mae dau ddarn fideo byr yn sail i'r ymarferion nesaf. Y darn cyntaf ydy fideo Diwrnod Mae gen i hawl 2020.

2. Dangoswch y fideo unwaith, ac yna rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau o dri i geisio rhestru cymaint â phosib o'r ffyrdd gwahanol y mae gennych chi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n cael eu cynnwys yn y fideo. Dyma'r rhestr gyflawn:
 - Cael dogfennau yn Gymraeg
 - Defnyddio gwefannau yn Gymraeg
 - Gwneud cais am swydd yn y Gymraeg
 - Ysgrifennu at sefydliad yn Gymraeg
 - Cael arwyddion Cymraeg
 - Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn
 - Cael negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
 - Cael llythyrau ac ebyst yn Gymraeg
 - Cael ffurflenni yn Gymraeg.
 - Gofyn i chi ydych chi eisiau siarad yn y Gymraeg.
3. Wedi mynd dros y rhestr, dangoswch y fideo eto ac yna gofynnwch i'r parau/grwpiau fynd trwy'r sgrïpt (Atodiad 1 yr uned) a llenwi cymaint o'r bylchau ag y gallant. Mae'r fersiwn gyflawn yn Atodiad 1 y Canllawiau hyn.
4. Ewch ymlaen i ddangos yr ail fideo (Hanes Huw) ddwywaith cyn gofyn i'r parau/grwpiau gywiro'r brawddegau gau a roddir yn yr uned. Tynnwch sylw at y ffaith bod mwy nag un ffaith anghywir yn rhai o'r brawddegau.
5. Trafodwch yr ymadrodd **hap a damwain** a gofynnwch i'r dysgwyr gynnig enghreifftiau eraill ble byddai'n briodol defnyddio'r ymadrodd hwn. Gallwch gynnig ambell enghraifft eich hun hefyd.
6. Siarad - cyflwynwch y cwestiynau siarad a rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, gofynnwch am yr hanesion mwyaf difyr o bob grŵp. Os nad oes llawer yn rhoi cynnig ar ddefnyddio'u Cymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, anogwch nhw i fanteisio ar eu hawl i wneud hynny, gan bwysleisio pa mor werthfawr fydd defnydd o'r fath o ran ymarfer eu Cymraeg a gwella eu gafael arni a'u hyder yn ei defnyddio.

Darllen a siarad – Profion gyrru Cymraeg

7. Cyn mynd ati i ddarllen y darn, rhannwch y dosbarth yn barau i gwblhau ymarferion 1 - 3.

Dyma'r atebion disgwylidig:

anghyfiawnder
ymrwymiad

pan fydd rhywun yn cael cam, neu sefyllfa annheg
rhywbeth mae rhaid i chi ei wneud

ymchwiliad
addewidion
arferion
cael dylanwad ar
argymell
cynnig yn rhagweithiol
mynd i'r afael â

proses o gasglu ac ystyried tystiolaeth
pethau dych chi wedi dweud y byddwch chi'n eu gwneud
pethau dych chi'n eu gwneud o ddydd i ddydd
effeithio ar y ffordd mae rhywbeth yn cael ei wneud
dweud beth dych chi'n meddwl dylai rhywun ei wneud
cyflwyno dewis i rywun yn lle aros iddyn nhw ofyn amdano
delio â sefyllfa neu broblem

cyson	anghyson	cydraddoldeb	anghydraddoldeb
cyfleus	anghyfleus	cytuno	anghytuno
cyffredin	anghyffredin	credadwy	anghredadwy

anrheg	anrhegion	planhigyn	planhigion
atgof	atgofion	angen	anghenion
mab	meibion	mantais	manteision

8. Wedi i chi fynd dros yr atebion uchod ac awgrymiadau ychwanegol y dysgwyr, gofynnwch iddynt edrych yn gyflym dros y darn (ei 'sganio' yn hytrach na'i ddarllen yn fanwl) a rhoi cylch o amgylch y geiriau o gwestiwn 1. uchod.

9. Rhannwch y dysgwyr yn barau wedyn a gofyn iddynt ddarllen y darn yn fwy manwl ac ateb cwestiynau 5-8. Dyma'r atebion disgwylidig:

1. Beth mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliad iddo?

Profion gyrru yn Gymraeg .

2. Beth ydy'r tair problem mae'r Comisiynydd wedi'u nodi?

a. Mae profion gyrru Cymraeg yn fwy tebygol o gael eu canslo na rhai Saesneg.

b. Mae rhaid aros yn hirach i gael profon gyrru ymarferol yn y Gymraeg.

c. Rhaid i chi nodi bod gennych chi "ofynion arbennig" wrth wneud cais am brawf gyrru ymarferol os dych chi eisiau sefyll y prawf yn Gymraeg.

3. Beth ddigwyddodd i'r ferch o ardal Y Rhyl?

Cafodd wybod nad oedd arholwr Cymraeg ar gael ddau ddiwrnod cyn ei phrawf, ac roedd rhaid iddi ddewis naill ai gwneud y prawf yn Saesneg neu aros am dros bum wythnos i gael y prawf yn Gymraeg.

4. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y DVSA yn ystyried adroddiad y Comisiynydd ac yn ymateb.

10. Cyflwynwch y cwestiynau siarad (am ddysgu gyrru a'r prawf gyrru) a rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, gallwch ofyn am y straeon mwyaf difyr a gododd ym mhob grŵp.

Llenwi bylchau – Pwy ydy Comisiynydd y Gymraeg?

11. Gofynnwch i barau ddarllen trwy'r darn, gan lenwi'r bylchau wrth fynd yn eu blaenau. Dyma'r atebion disgwylidig:

Cafodd Aled ei eni a'i _____ yn ardal Rhosllannerchrugog ger Wrecsam, ac mae'n parhau i fyw yno. Mae nifer o bobl yn siarad Cymraeg yn Rhos, ac mae ganddyn nhw _____ unigryw. Maen nhw'n dweud 'nene' am 'hynny draw fan yna'. Nene yw enw'r papur bro lleol hefyd.

Cafodd Aled ei fagu gan deulu oedd yn siarad Cymraeg. Cafodd ei addysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg, ond derbyniodd wersi Cymraeg yn yr ysgol. Yn Saesneg roedd Aled yn siarad gyda'r rhan fwyaf o'i ffrindiau, ond pan roedd yn ei ardegau sylwodd pa mor wych oedd bod yn ddwyieithog, a gwelodd fod y Gymraeg yn bwysig. Roedd yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg a mynd i ddigwyddiadau Cymraeg.

Swydd gyntaf Aled Roberts, oedd swydd ym mhapur yr *Evening Leader* fel 'bachgen papur' pan oedd yn dair ar ddeg (gallai un deg tri' fod yn dderbyniol hefyd) oed. Yn ei ardegau, gweithiodd fel postmon dros gyfnod/dymor y Nadolig. Ar ei ddiwrnod cyntaf (byddai 'olaf' neu 'gwaethaf' yn dderbyniol hefyd) fel postmon, roedd hi'n bwrw eira yn ofnadwy, ac fe gymerodd y shifft ddeg awr a hanner iddo!

Daeth Aled yn Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2019. Mae'n mwynhau bod yn rhan o'r ymdrech i gael miliwn (1,000,000) o siaradwyr erbyn 2050.

Mae Aled yn awyddus bod Comisiynydd y Gymraeg yn cynrychioli Cymru gyfan, nid Cymry Cymraeg yn unig; mae swyddogion y Comisiynydd yn byw ym mhob rhan o'r wlad. Mae'n teimlo'n gryf y dylai siaradwyr Cymraeg sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol, ganfod swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl derbyn eu haddysg. Dydy o ddim eisiau i siaradwyr Cymraeg golli hyder i siarad yr iaith.


Astudiodd y gyfraith ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Dyna pryd trodd yn ôl o ddifri at siarad Cymraeg, a chymryd diddordeb yn y diwylliant Cymreig a Chymraeg. Mae'n briod â Llinos, ac mae ganddynt ddau fab, Osian ac Ifan. Mae'r teulu yn siarad Cymraeg â'i/efo'i gilydd. Aeth y meibion i ysgolion Cymraeg lleol. Mae ei wraig, Llinos yn gyfrifol am y Gymraeg mewn coleg addysg bellach, sydd hefyd yn ddarparwr Cymraeg i oedolion. Mae sgwrsio â phobl sydd wedi dod yn rhugl fel oedolion wastad yn brofiad cyffrous ac yn rhan bwysig o'r ymdrech i greu miliwn o siaradwyr.

Bu Aled yn gweithio fel cyfreithiwr yn ardal Wrecsam, Rhuthun a'r Wyddgrug. Roedd yn arbenigo mewn achosion plant. Bu'n cynrychioli ardal Rhos a'r Ponciau ar Gyngor Wrecsam o 1991 tan 2012 a phan gafodd ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2005, rhoddodd y gorau i'w swydd fel cyfreithiwr. Bu'n arwain y cyngor nes iddo gael ei ethol yn Aelod Cynulliad dros ranbarth gogledd Cymru yn 2011.

Mae Aled yn weithgar iawn yn ei gymuned yn Rhos, ac yn aelod gweithgar o bwyllgor Canolfan Gymunedol Gelf y Stiwt. Mae'n aelod o Gôr John's Boys, sydd wedi ennill mewn eisteddfodau a chystadlaethau mawr eraill, ac mae'n aelod o Gôr Ger y Ffin hefyd. Mae Côr Ger y Ffin yn gyfle i ganu efo ffrindiau, a chyfarfod efo'i wraig unwaith (x1) yr wythnos!

Cwrdd â'r Comisiynydd

Cofiwch rannu manylion y cyfarfod gydag Aled Roberts ar ddiwrnod "Mae gen i hawl", ac annog y dysgwyr i ymuno. Os ydy'ch dosbarth yn cwrdd ar nos Fawrth, gallwch chi gynnwys y cyfarfod yn rhan o'r dosbarth yr wythnos honno. Byddwch eisoes wedi derbyn y ddolen. Bydd angen i bawb arall ymrestru trwy ddilyn y ddolen o dan y poster. Y dyddiad cau yw 5 Rhagfyr.



The poster features a purple background on the left with a white geometric logo of three triangles. The text is in white and black. On the right, there is a photograph of Aled Roberts, a middle-aged man with grey hair, wearing a blue shirt and a maroon sweater, smiling. The Welsh Language Commissioner logo is in the bottom right corner of the poster.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Mae Gen i Hawl

Dewch i holi Aled Roberts,
Comisiynydd y Gymraeg ar
ddiwrnod "Mae gen i Hawl."

Nos Fawrth, 7 Rhagfyr
Am 7-7.45yh

Bydd y sesiwn yn cael ei chynnal ar Zoom
a bydd yn addas i ddysgwyr ar
lefel Canolradd +.

Archebwch eich lle nawr.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

I archebu eich lle yn y cyfarfod, llenwch y ffurflen sydd ar wefan dysgucymraeg.cymru yma:

<https://dysgucymraeg.cymru/newyddion/mae-gen-i-hawl/>.

Atodiad 1 – Sgript fideo Mae gen i hawl

Mae sefydliadau cyhoeddus yn cynnig gwasanaethau Cymraeg mewn amryw o ffyrdd:

- Cael dogfennau yn Gymraeg
- Defnyddio gwefannau yn Gymraeg
- Mae hawl i wneud cais am swydd yn y Gymraeg
- Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg
- Yr hawl i gael arwyddion Cymraeg
- Mae hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y ffôn
- Mae hawl gen i i gael negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
- Mae hawl i gael llythyrau ac ebyst yn Gymraeg
- Yr hawl i gael ffurflenni yn Gymraeg.
- Mi wnawn ni ofyn i chi os ydych chi moyn siarad yn y Gymraeg.

Bore da, good morning, Amy o'r dderbynfa sy' 'ma.

Pa bynnag ffordd rydych chi am gyfathrebu, rydym am fod yn deg gyda phawb.

A phwy sydd â'r hawl?

Fi.

Fi.

Fi.

Fi.

Ti.

Ti.

Chi.

Chi.

Ti.

Ti.

Fo.

Fo.

Fe.

Ti.

Hi.

Nhw.

Ni.

Pawb.

Mae gen i hawl. (x11)

O'r hyn dach chi'n weld i'r hyn dach chi'n glywed, mae gan bawb hawl i gael eu trin yn gyfartal yn y Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus.